# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 25 Medi 2013** |
| Amser: | **09:30 – 11:09** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_25_09_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **David Rees (Cadeirydd)**<br>**Leighton Andrews**<br>**Rebecca Evans**<br>**William Graham**<br>**Elin Jones**<br>**Darren Millar**<br>**Lynne Neagle**<br>**Gwyn R Price**<br>**Lindsay Whittle**<br>**Kirsty Williams** |
| Tystion: | **Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Madeley (Clerc)**<br>**Sarah Sargent (Dirprwy Glerc)**<br>**Stephen Boyce (Ymchwilydd)** |

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Gwaith craffu ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

2.1 Ymatebodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol.

3.1 Lythyr gan y Pwyllgor Deisebau: Hawliau Cyfartal i Bobl Ifanc Tiwb-borthedig

3a.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr a gafwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau; bydd y Cadeirydd yn ymateb, gan nodi'r ohebiaeth.

3.2 Llythyr gan y Pwyllgor Deisebau: Gwasanaethau Ambiwlans ym Mynwy

3b.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr a gafwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau; bydd y Cadeirydd yn ymateb, gan nodi'r ohebiaeth.

3.3 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Yn dilyn y sesiwn graffu gyffredinol ar y Gweinidog, Gorffennaf 2013

3c.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr a gafwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

3.4 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Ymchwiliad i'r achosion o'r frech goch 2013

3d.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr a gafwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

3d.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn gofyn iddo:

- am yr effaith y mae cwtogi'r gyllideb diogelu iechyd ac imiwneiddio o £1.9 miliwn, fel y nodir gan Swyddfa Archwilio Cymru'n yn ei hadroddiad, 'Cyllid Iechyd 2012-13 a Thu Hwnt' [tudalen 16], wedi ei chael; ac
- am ffynhonnell yr arian a ddefnyddiwyd i fynd i'r afael â'r achosion diweddar o'r frech goch, ac a oedd yr arbedion o £1.9 miliwn yn parhau i fodoli ar ddiwedd y flwyddyn.

3.5 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor i'r achosion o'r frech goch 2013

3e.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr a gafwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

3.6 Blaenraglen Waith

3f.1 Nododd y Pwyllgor y flaenraglen waith ar gyfer tymor yr hydref.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Trafod y flaenraglen waith

5.1 Trafododd y Pwyllgor yr opsiynau a'r cynigion ar gyfer ei flaenraglen waith ar gyfer y cyfnod yn dilyn y Nadolig:

## 6 Mynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru

6.1 Trafododd y Pwyllgor sut y bydd yn cynnal ei ymchwiliad i fynediad at dechnolegau meddygol, a chytunodd y byddai'n ceisio penodi cynghorwr arbenigol. Cytunodd hefyd ar swydd-ddisgrifiad ddrafft ar gyfer y rôl gynghorol hon.

## 7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Gofal

7.1 Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig ar gyfer y Bil Gofal.

7.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am eglurhad ynghylch pam yr ymddengys nad yw'r Bil Gofal yn cynnwys gofyniad cyfatebol ar awdurdodau lleol yn yr Alban i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolion a leolir yno gan awdurdodau lleol Cymru.